Caradog Roberts, 1878–1935
Cerddor, cyfansoddwr ac organydd

Ym mhentref enwog Rhosllannerchrugog, sir Ddinbych, y ganwyd Caradog Roberts, mewn tŷ o'r enw, Mount View a hynny ar 30 Hydref 1878, yn fab i John a Margaret Roberts. Daeth ei ddoniau cerddorol i'r amlwg pan oedd yn ifanc ac enillodd nifer o wobrwyon wrth gystadlu mewn eisteddfodau. Dywedid ei fod cyn dechrau yn Ysgol Gynradd y Rhos yn eistedd am oriau wrth harmoniwm yn cyfansoddi tonau. Treuliodd gyfnod fel disgybl-athro ac wedyn, yn groes i'r graen, prentisiwyd ef fel saer gyda Jenkin a Jones, Seiri Coed yn Johnstown. Gweithiodd fel saer am dair blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw adeiladodd sedd ar gyfer organ newydd Capel Mawr, Rhos, a agorwyd gan Dr Roger Rogers, organydd Eglwys Gadeiriol Bangor.

Achubodd Caradog Roberts ar ei gyfle a chanu ffiwg gan Guilmant yng nghlyw Dr Rogers. Canlyniad hynny oedd i Dr Rogers argyhoeddi ei rieni fod ganddo ddoniau pur arbennig ac y dylai gael hyfforddiant arbenigol. Rhoddodd y gorau i'w waith fel saer ac aeth ati i astudio cerddoriaeth. Cafodd ei wersi cyntaf ar y piano a'r organ gan Dan C. Owen, organydd eglwys Sant Ioan, Rhos, a chyn pen dim yr oedd yn cyfeilio i gorau'r pentref. Cafodd wersi pellach gan Norton Bailey a Dr Joseph C. Bridge organydd Eglwys Gadeiriol Caer gan ennill graddau ARCO, FRCO, ARAM, ac LRAM, rhwng 1899 a 1902.

Ym 1903 fe gafodd hyfforddiant gan Dr Johannes Weingarter organydd Eglwys Gadeiriol Lerpwl, a'r flwyddyn ddilynol fe'i penodwyd yn organydd capel Annibynwyr Mynydd Seion, Ponciau; gwasanaethodd yn y swydd honno am naw mlynedd. Ym mis Tachwedd 1905 enillodd radd Baglor mewn Cerddoriaeth yn Rhydychen, ac ym 1911 derbyniodd radd Doethur mewn Cerddoriaeth.

Ef oedd y Cymro ieuengaf, a'r cyntaf o ogledd Cymru, i dderbyn y radd hon. Penodwyd ef yn organydd a chôr-feistr eglwys Annibynwyr Bethlehem y Rhos a chyflawnodd y gwaith hyd ei

farwolaeth. Priododd â Laura Roberts ym 1912 a chawsant un ferch, sef Stella.

Bu'n gyfarwyddwr cerdd Coleg y Brifysgol, Bangor, o 1914 hyd 1920, gan drefnu gweithgareddau cerddorol, ac yn arweinydd cymdeithasau corawl y Rhos a Llandudno. Hefyd sefydlodd nifer o ddosbarthiadau nos ar hyd arfordir y gogledd yn dysgu elfennau cerddoriaeth. Cyfrannodd yn helaeth at ganiadaeth y cysegr trwy fod yn olygydd *Y Caniedydd Cynulleidfaol* 1921, a *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul*, 1930. Gwasanaethodd yn gyson fel organydd, beirniad, ac arweinydd medrus cymanfaoedd canu.

Ond cyfraniad mwyaf arhosol Caradog Roberts i'r dystiolaeth Gristnogol, heb os nac oni bai, oedd ei gyfansoddiadau a gynhwysai nifer o ffurfiau cerddorol, megis unawdau, anthemau ac emyn-donau. Cyfansoddodd ddarnau cerddorol, fel y caneuon 'Bore'r Pasg', 'Crossing the Bar', 'Cleddyf yr Ysbryd' a'i anthem 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', sy'n parhau yn boblogaidd. Y mae rhai o'i donau, fel 'Rachie' ac 'In Memoriam' yn gampweithiau sydd bellach yn cael eu defnyddio'n fyd-eang gan Gristnogion wrth ganu clod i'r Arglwydd. Bu farw fore Sul, 3 Mawrth 1935, yn 56 oed, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Rhosllannerchrugog.